**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

**MINUTES**

---

## CYFARFOD Y CABINET:

---

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Phil Bale (Chair)<br>Y Cynghorydd Sue Lent<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Dan De'Ath<br>Y Cynghorydd Bob Derbyshire<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Susan Elsmore<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Ramesh Patel |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd David Walker<br>Y Cynghorydd Neil McEvoy<br>Y Cynghorydd Judith Woodman |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>Davina Fiore, Swyddog Monitro<br>Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet |

**COFNODION Y CYFARFODYDD CABINET A GYNHALIWYD AR 19 A 25 IONAWR 2017**

PENDERFYNWYD: bod cofnodion y cyfarfodydd Cabinet a gynhaliwyd ar 19 a 25 Ionawr i'w cymeradwyo.

**CYNLLUN CORFFORAETHOL 17-19**

Ystyriodd y Cabinet y Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2017-19. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ffurfio rhan o'r fframwaith polisi strategol a nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor a chaiff ei ystyried yn flynyddol gan y Cyngor.

Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddatblygu yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae nifer o amcanion llesiant wedi'u datblygu ar gyfer pob blaenoriaeth, cefnogir hyn gan nifer o ymrwymiadau a dangosyddion perfformiad i fesur cynnydd.

**PENDERFYNWYD**

1. y byddai Cynllun Corfforaethol 2017-19 fel y'i nodir yn **Atodlen A** yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo i'r Cyngor ei ystyried ar 23 Chwefror 2017; a

2. y argymhellir y Cyngor i ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i Gynllun Corfforaethol 2017-19 yn dilyn ystyriaeth gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2017.

**CAFFAEL RHEOLAETH CELFYDDYDAU**

***Nid yw Atodiadau 2 3, 4 a 5 yr adroddiad hwn i'w cyhoeddi dan Adran 12A Rhan 4 paragraff 14 yn unol ag Adran 12A Rhan 5 paragraff 21 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). Ystyrir bod, o ystyried holl amgylchiadau'r achos, budd y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu cynnydd hyd yn hyn a ffordd ymlaen ar gyfer y Caffael Rheolaeth Celfyddydau mewn perthynas â Neuadd Dewi Sant a'r Theatr Newydd.

**PENDERFYNWYD**

1. rhoi gorau i'r broses gaffael Dialog Cystadleuol Rheolaeth Celfyddydau.

2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ddechrau ar y broses o weithredu'r 'Uwch Fodel Mewnol' fel y'i nodir yn yr adroddiad hwn;

3. archwilio'r posibilrwydd o gerbyd 'ni-er-elw' a nodi y caiff adroddiad ar wahân ei gyflwyno i'r Cabinet.

4. paratoi cynllun moderneiddio ar gyfer Neuadd Dewi Sant a'r Theatr Newydd gan gynnwys ystyried opsiynau datblygu a nodi y caiff adroddiad ar wahân ei gyflwyno i'r Cabinet.

**PERFFORMIAD CHWARTER 3**

Derbyniodd y Cyngor adroddiad perfformiad Chwarter 3 (mis Hydref tan fis Rhagfyr) blwyddyn ariannol 16-17. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad perfformiad gan y gyfarwyddiaeth ynghyd â throsolwg o berfformiad corfforaethol yn cynnwys cyfraddau absenoldeb salwch, cydymffurfio â DPP, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a bodlondeb cwsmer. Nodwyd bod 60% o ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol yn Wyrdd a bod 68% o'r Dangosyddion Perfformiad yn Wyrdd.

**PENDERFYNWYD:** y nodir y sefyllfa bresennol o ran perfformiad, sut mae cyflawni ymrwymiadau a blaenoriaethau fel yn Chwarter 3, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n achos pryder.

**MONITRO CYLLIDEB – ADRODDIAD MIS 9**

Cafodd y Cabinet newyddion am sefyllfa monitro ariannol yr awdurdod ar sail naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Adroddwyd bod y sefyllfa refeniw yn dangos sefyllfa cytbwys yn erbyn y cyllideb, gwelliant ar y sefyllfa fis 6. Nodwyd bod y sefyllfa gyffredinol yn parhau i adlewyrchu'r pwysau ariannol a'r diffygion yn erbyn targedau arbedion cyllideb yng nghyllidebau cyfarwyddiaethau. Mae'r arbedion sydd wedi eu cynllunio o ran cyllid cyfalafol a chostau yswiriant, rhyddhau cyllidebau tu cefn (a'u clustnodwyd yn flaenorol ar gyfer diswyddo gwirfoddol), mwy o Dreth Gyngor na'r disgwyl ac ad-daliadau ad-drethi annomestig ar eiddo'r Cyngor yn gwneud yn iawn am ran o'r gorwario.

PENDERFYNWYD

1. sefyllfa alldro posib ar sail naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol gael ei nodi.

2. Y gofyn ar yr holl gyfarwyddiaethau sydd ar hyn o bryd yn cofnodi gorwario fel y nodir yn yr adroddiad, i atgyfnerthu eu camau gweithredu sydd ar waith i ostwng y gorwario a ragfynegir.

3.

4. Cymeradwyo virement y gyllideb tu cefn o £250,000 yn y Rhaglen Gyfalaf yn ogystal â dod â chyllidebau'r Rhaglen Gyfalaf mynegol ar gyfer adnewyddu asedau eiddo ysgolion yn eu blaen er mwyn talu costau gwaith cydymffurfio ychwanegol yn 2016/17.

**ADRODDIAD Y GYLLIDEB 2017/18**

***Ni fydd Atodiadau 12(d) yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym Mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Ystyriodd y Cabinet y cynigion ar gyfer y cyllideb ar gyfer 2016/17 cyn eu hargymell i'r Cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD:** wedi ystyried sylwadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau mewn perthynas â chryfder y gyllideb ac addasrwydd arian wrth gefn fel sy'n angenrheidiol dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb y byddid yn argymell y Cyngor i:

1.0 Gymeradwyo'r cyllidebau Refeniw, Cyfalaf, Cyfrif Refeniw Tai gan gynnwys yr holl gynigion a chynyddu'r Dreth Gyngor gan 3.7% fel y nodir yn yr adroddiad hwn a bod y Cyngor yn datrys y termau canlynol.

2.0 Nodi i'r Cyngor yn y cyfarfod ar 15 Rhagfyr 2016 gyfrif y symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2017/18 yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adran 33(5) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) 143,032 – sef y swm a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru), fel y diwygiwyd, fel sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

b)

| | |
|---|---|
| Llys-faen | 2,350 |
| Radur | 3,651 |
| Sain Ffagan | 1,295 |
| Pentref Llaneirwg | 1,400 |
| Tongwynlais | 823 |

Sef y symiau a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel symiau sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

2.1 Cytuno bod y symiau canlynol bellach yn cael eu cyfrif gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer y flwyddyn 2017/18 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) Cyfansymio'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) (gan gynnwys preseptau'r Cyngor Cymuned sy'n dod i £309,600).

b) £1,077,570,600

c) Cyfansymio'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) i (c).

£492,127,791

d) Y swm y mae'r cyfanswm yn 2.1(a) y fwy na'r cyfanswm yn 2.1(b) uchod a gyfrifwyd yn unol ag Adran 32(4) fel y gofyniad ar gyfer y gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

e) £585,442,809

f) Cyfansymio'r symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y cânt eu talu yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas â Grant Cynnal Refeniw a Chyfraddau Annomestig wedi'u hailddosbarthu.

£428,216,560

g) Y swm ar 2.1(c) uchod heb y swm ar 2.1(d) (net y swm ar gyfer rhyddhad diamod o £350,000), i gyd wedi'i rannu gan y swm ar 2.0(a) uchod, wedi'i gyfrif yn unol ag Adran 33(1) fel y swm sylfaenol o Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

£1,101.69

h) Cyfansymio swm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1).

i) £309,600

j) Swm ar 2.1(e) uchod heb y canlyniad a geir trwy rannu'r swm ar 2.1(f) uchod gan y swm ar 2.0(a) uchod, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal nad yw dim eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

£1,099.52

k) Y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm ar 2.1(g) uchod y symiau o eitemau arbennig sy'n berthnasol i aneddiadau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir isod, wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm ar 2.0(b) uchod, wedi'u cyfrif yn unol ag Adran 34(3) fel symiau sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

| | £ |
|---|---|
| Llys-faen | 1,113.99 |
| Pentyrch | 1,127.45 |
| Radur | 1,132.39 |
| Sain Ffagan | 1,113.42 |
| Pentref Llaneirwg | 1,119.23 |
| Tongwynlais | 1,122.61 |

i) Y symiau a geir trwy luosogi y symiau ar 2.1(g) a 2.1(h) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a nodir yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Bandiau Gwerthuso) 2003, yn berthnasol i aneddiadau a restrir mewn band gwerthuso penodol wedi'i rannu gan y rhif sydd, yn y gyfran hon, yn berthnasol i aneddiadau a restrir ym mand gwerthuso D wedi'i gyfrif yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau aneddiadau a restrir mewn bandiau gwerthuso gwahanol.

**BANDIAU GWERTHUSO**

| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Ardal** | | | | | | | | | |
| Llys-faen | 742.66 | 866.43 | 990.21 | 1,113.99 | 1,361.54 | 1,609.10 | 1,856.64 | 2,227.98 | 2,599.31 |
| Pentyrch | 751.63 | 876.90 | 1,002.18 | 1,127.45 | 1,378.00 | 1,628.55 | 1,879.08 | 2,254.90 | 2,630.72 |
| Radur | 754.92 | 880.74 | 1,006.57 | 1,132.39 | 1,384.03 | 1,635.68 | 1,887.31 | 2,264.78 | 2,642.24 |
| Sain Ffagan | 742.28 | 865.99 | 989.71 | 1,113.42 | 1,360.85 | 1,608.28 | 1,855.70 | 2,226.84 | 2,597.98 |
| Pentref Llaneirwg | 746.15 | 870.51 | 994.87 | 1,119.23 | 1,367.96 | 1,616.68 | 1,865.39 | 2,238.47 | 2,611.55 |
| Tongwynlais | 748.40 | 873.14 | 997.87 | 1,122.61 | 1,372.08 | 1,621.55 | 1,871.01 | 2,245.21 | 2,619.42 |
| Pob rhan | 733.01 | 855.18 | 977.35 | 1,099.52 | 1,343.86 | 1,588.20 | 1,832.53 | 2,199.04 | 2,565.55 |

arall o Ardal y
Cyngor

2.2 Nodi bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru, ar gyfer y flwyddyn 2017/18, wedi dweud bod y symiau canlynol mewn preseptau wedi'u cyhoeddi i'r Cyngor, yn unol a Adran 40 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol ar gyfer pob un o'r categorïau aneddiadau a ddangosir isod:-

**BANDIAU GWERTHUSO**

| A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| 145.50 | 169.75 | 193.99 | 218.24 | 266.74 | 315.24 | 363.74 | 436.49 | 509.24 |

2.3 Wedi cyfrif y cyfanswm ym mhob achos y symiau ar 2.1(i) a 2.2 uchod, mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn unol ag Adran 30(2) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol drwy hyn yn pennu'r symiau canlynol fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2017/18 ar gyfer pob un o'r categorïau aneddiadau a ddangosir isod:-

Rhan o Ardal y Cyngor
**BANDIAU GWERTHUSO**

| | A | B | C | D | E | *F* | *G* | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Ardal** | | | | | | | | | |
| Llys-faen | 888.16 | 1,036.18 | 1,184.20 | 1,332.23 | 1,628.28 | 1,924.34 | 2,220.38 | 2,664.47 | 3,108.55 |
| Pentyrch | 897.13 | 1,046.65 | 1,196.17 | 1,345.69 | 1,644.74 | 1,943.79 | 2,242.82 | 2,691.39 | 3,139.96 |
| Radur | 900.42 | 1,050.49 | 1,200.56 | 1,350.63 | 1,650.77 | 1,950.92 | 2,251.05 | 2,701.27 | 3,151.48 |
| Sain Ffagan | 887.78 | 1,035.74 | 1,183.70 | 1,331.66 | 1,627.59 | 1,923.52 | 2,219.44 | 2,663.33 | 3,107.22 |
| Pentref Llaneirwg | 891.65 | 1,040.26 | 1,188.86 | 1,337.47 | 1,634.70 | 1,931.92 | 2,229.13 | 2,674.96 | 3,120.79 |
| Tongwynlais | 893.90 | 1,042.89 | 1,191.86 | 1,340.85 | 1,638.82 | 1,936.79 | 2,234.75 | 2,681.70 | 3,128.66 |
| Pob rhan arall o Ardal y Cyngor Ardal | 878.51 | 1,024.93 | 1,171.34 | 1,317.76 | 1,610.60 | 1,903.44 | 2,196.27 | 2,635.53 | 3,074.79 |

2.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i wneud taliadau dan Adran 38 Deddf Lywodraeth Leol (Cymru) 1994 o Gronfa'r Cyngor trwy randaliadau cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis o fis Ebrill 2017 tan fis Mawrth mewn perthynas â'r praesept a godwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru sef £31,215,904.

2.5 Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i'r Treth Gyngor ddywededig.

2.6 Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i braeseptau ar gyfer Dreuliau Iechyd Porthladd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018.

| | £ |
|---|---|
| Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd | 113,755 |

| | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | 12,846 |

2.7 Cytuno bod hysbysiadau o wneud Trethi Cyngor dywededig wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr yn cael eu hysbysebu yn y wasg leol dan Adran 38(2) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992.

3.0 Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodusrwydd ar gyfer 2017/18, 2018/19 a 2019/20 gan ddirprwyo awdurdod i Swyddog Adran 151 i beri symudiad rhwng y terfynau ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau hirdymor ymhen y terfyn ar gyfer unrhyw flwyddyn.

4.0 Cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys ar gyfer 2017/18 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Awdurdod Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddiaeth) (Cymru) 2003 a newidiadau canlyniadol.

5.0 Cymeradwyo'r Polisi Darpariaeth Refeniw Lleiaf ar gyfer 2017/18.

6.0 Awdurdodi Swyddog Adran 151 i godi arian yn ôl yr angen i ariannu Gwariant Cyfalaf trwy fenthyca dros dro neu hirdymor o fewn y terfynau a amlinellir yn y strategaeth uchod a dod â chynlluniau yn eu blaen neu'u hoedi yn y Rhaglen Gyfalaf.

7.0 Cynnal y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor cyfredol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:** wedi ystyried sylwadau Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r gyllideb ac addasrwydd arian wrth gefn fel sy'n angenrheidiol dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb:

8.0 Cymeradwyo ffioedd a chostau fel y nodir yn Atodlen 12(a) a 12(c) yr adroddiad hwn.

9.0 Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr perthnasol mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i newid neu gyflwyno ffioedd a chostau newydd yn ystod y flwyddyn.

10.0 Cynyddu rhent yr holl aneddiadau Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys (hosteli a modurdai) wedi ystyried canllawiau LC.

11.0 Yr holl gostau gwasanaeth a ffioedd rheoli ar gyfer lesddeiliaid fel y nodir yn Atodlen 12(b).

12.0 Cynyddir rhent Cyfrif Refeniw Tai o 3 Ebrill 2017 ymlaen.

13.0 Cydnabod y gwaith wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o wydnwch ariannol y Cyngor a chymeradwyo'r camau wedi'u cymryd yn rhan o'r gyllideb i wella'r sefyllfa hon.

14.0 Cydnabod yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor fel y nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a nodi'r cyfleoedd ar gyfer arbedion dros y tymor canolig.

15.0 Cynllun Gwario Grant y Rhaglen Gefnogi Pobl ar gyfer 2017/18 fel y nodir yn Atodlen 16.

## CAIS I ATAL YR HAWL I BRYNU A'R HAWL I GAFFAEL YNG NGHAERDYDD

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael. Nodwyd bod lefel da o ymateb i'r ymgynghoriad gyda 2785 o ymatebion unigol wedi'u derbyn, y cytunodd 57.2% o ymatebwyr â'r cynnig.

**PENDERFYNWYD**

1. Nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael.

2. Gwneud cais i Lywodraeth Cymru i atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yng Nghaerdydd ar gyfer pob rhan o'r ddinas a phob math o eiddo am 5 mlynedd.

3. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaeth Cwsmeriaid i gyflwyno cais manwl i Lywodraeth Cymru i atal yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael ac i gymryd y camau cysylltiedig.

## YMATEB I'R GALW I MEWN - CYFNEWIDFA TRAFNIDIAETH GORLLEWIN CAERDYDD

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn manylu ar yr ymateb i galw i mewn penderfyniad blaenorol y Cabinet ynglŷn â Chyfnewidfa Drafnidiaeth Gorllewin Caerdydd.

**PENDERFYNWYD:** ailgadarnhau'r penderfyniad i gymeradwyo datblygu Cyfnewidfa Drafnidiaeth y Gorllewin i barhau yn y safle a nodwyd.